# PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION

## Dydd Mercher, 4 Mehefin 2014 (1.00 o'r gloch)

Gweler ynghlwm yr adroddiadau sydd wedi'u dynodi fel ADRODDIADAU i DDILYN ar raglen y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion :

**6** **CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO** (Tudalennau 1 - 2)

6.1 41C125B/EIA/RE – Bryn Eryr Uchaf, Porthaethwy

**7** **CEISIADAU'N CODI** (Tudalennau 3 - 28)

7.1 19C1136 – Ysgol Gynradd Kingsland, Caergybi

7.2 22C40A – Cae Maes Mawr, Llanddona

7.3 38C237B – Careg y Daren, Llanfechell

7.4 44C294B – Plas Newydd, Rhosybol

7.5 – 46C38S/ECON – Sea Shanty House, Lôn St Ffraid, Trearddur

*ADRODDIAD I DDILYN*

**10** **CEISIADAU'N GWYRO** (Tudalennau 29 - 40)

10.1 25C163C – Tyddyn Waen Barn, Bachau

10.2 27C102 – Penrhos, Llanfachraeth

*ADRODDIAD I DDILYN*

**11** **CYNIGION DATBLYGU GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION** (Tudalennau 41 - 44)

11.1 23C266A – Gwenfro Uchaf, Talwrn

*ADRODDIAD I DDILYN*

**12** **GWEDDILL Y CEISIADAU** (Tudalennau 45 - 64)

12.1 29LPA996/CC – Maes Maethlu, Llanfaethlu

12.2 30C392A – Maes Parcio Cyhoeddus a Thir Agored Cyfagos, Ffordd Bangor, Min yr Afon, Benllech

12.3 32LPA920A/CC – Ysgol y Tywyn, Llanfihangel yn Nhowyn

12.4 46C535 – Toiledau Cyhoeddus Ynys Lawd, Ynys Lawd, Caergybi

*ADRODDIAD I DDILYN*

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

23C266: Addasu ac ehangu ynghyd ag ehangu'r cwrtil a chodi sied a 'polytunnel' yn Gwenfro Uchaf, Talwrn. Caniatau – 10/01/08

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Rhoddwyd caniatâd eisoes ar gyfer twnnel polythen a sied a byddai'r adeilad sy'n destun y cais hwn yn cael ei godi yn lle'r rheini. O gofio lleoliad y safle a maint a math yr adeilad y bwriedir ei godi, nid ystyrir y bydd niwed i'r dirwedd nac i fwynderau deiliaid eiddo preswyl cyfagos.

Gellir cynnwys amod gyda'r caniatâd yn rhwystro adeiladu'r sied a'r twnnel polythen a ganiatawyd eisoes er mwyn sicrhau nad oes gormodedd o adeiladau yn y lleoliad hwn.

**7. Casgliad**

Ystyrir bod y sied a'r tŷ gwydr arfaethedig yn dderbyniol yn y lleoliad hwn.

**8. Argymhelliad**

**Caniatau**

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Mae gweithredu'r caniatâd hwn yn golygu na chaniateir datblygu'r sied a'r twnnel polythen a ganiatawyd eisoes dan ganiatâd cynllunio 23C266.**

Rheswm: Er lles mwynderau.

Polisi TR10 Safonau Parcio
Polisi SG2 Datblygu a llifogydd
Polisi SG6 Dŵr Wyneb
Polisi CC1 Cyfleusterau Cymunedol

**TAN 15 Datblygu a Pherygl o Lifogydd**
**TAN 12 Dyluniad**
**TAN 18 Trafnidiaeth**

**Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol – Canllawiau Dylunio ar gyfer Amgylchedd Adeiledig, Gwledig a Threfol**

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

**Cyn Aelod Lleol (T Roberts)** – Yn cefnogi

**Cyngor Cymuned** – Cymeradwyo

**Priffyrdd** – Amodau

**Asiantaeth yr Amgylchedd** – Amodau

**Dwr Cymru** – Amodau

**Swyddog Llwybrau** – Dim gwrthwynebiad.

Mae 7 llythyr wedi eu derbyn yn gwneud y pwyntiau canlynol:

1) Dylai maes parcio'r llyfrgell gael ei ehangu a dylid symud y biniau ailgylchu oddi yno;
2) Ni ddylai'r contractwyr ddefnyddio'r prif faes parcio hyd nes y bydd maes parcio cleifion y ganolfan iechyd wedi ei adeiladu;
3) Dylai'r adeilad gael ei leoli yn rhywle arall;
4) Mae safleoedd eraill ar gael;
5) Dylai'r maes parcio ceir fod i holl ddefnyddwyr y ffyrdd;
6) Yn gwrthwynebu colli llefydd parcio
7) Mae cyfamod ar y tir yn cyfyngu'r defnydd i faes parcio
8) Mae mater o lifogydd a risg o lifogydd
9) Bydd y traffic ychwanegol yn achosi problemau
10) Ni fydd cyfeiriad y llwybr troed newydd mor hwylus a'r un presennol
11) Bydd coed yn cael eu colli a bydd yn niweidiol bywyd gwyllt
12) Mae'r adeilad yn rhy fawr a bydd yn newidiol i fwynderau eiddo cyfagos.
13) Nid yw graddfa'r adeilad yn gweddu gydag adeiladau eraill
14) Fe welir colli goleuni
15) Bydd y mas a'r uchder yn annerbyniol
16) Bydd edrych drosodd a cholli preifatrwydd
17) Efallai y bydd y problemau diogelwch yn cael eu creu.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

Dim yn berthnasol

